# BETH I'W WNEUD Â SBWRIEL YN NHIRWEDD CENEDLAETHOL LLŶN?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.
Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

## TROSOLWG

Bydd y dysgwyr yn edrych ar ble y gellir dod o hyd i sbwriel yn Nhirwedd Cenedlaethol Llŷn, sut y cyrhaeddodd yno ac o ble y daeth. Maent yn archwilio llawer o syniadau ynghylch gwneud gweithiau celf allan o sbwriel, fel y gallant ddylunio a gwneud rhai eu hunain. Maent yn ymchwilio i sut y gallwn leihau ein 'gwastraff' drwy ddefnyddio'r 5R. Mae hyn yn cynnwys sefydlu a rhedeg siop gyfnewid a chaffi atgyweirio yn yr ysgol. Yna, maent yn edrych ar ailgylchu yn fwy manwl, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddata o Ben Llŷn a Chymru.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yn unig).
Dulliau o gasglu sbwriel yn ddiogel mewn ardaloedd lleol, e.e. codwyr sbwriel, bagiau, menyg, ac ati.
Rhywle i storio'r sbwriel a gasglwyd.
Dulliau o wneud gwaith celf allan o sbwriel a gasglwyd, e.e. glud, llinyn, tâp, pren, ac ati.
Dulliau o gymryd ffotograffau, e.e. ffonau clyfar, tabledi, camerâu digidol.
Man lle gellid cynnal siop gyfnewid yn yr ysgol.
Man a chyfleusterau yn yr ysgol ar gyfer cynnal caffi atgyweirio.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Er mwyn cyrchu'r raddfa ar Google maps, cliciwch ar 'View larger map'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# YM MHLE RYDYN NI'N DOD O HYD I SBWRIEL?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n edrych ar ble y gellir dod o hyd i sbwriel yn Nhirwedd Cenedlaethol Llŷn, sut y cyrhaeddodd yno ac o ble y daeth.

## Sgrîn 3

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y map sy'n dangos Tirwedd Cenedlaethol Llŷn ac atebwch y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ym mha fan y byddech chi'n fwyaf tebygol o ddod o hyd i sbwriel, yn eich barn chi?
- Pa fath o sbwriel allech chi ddod o hyd iddo? Pam?
- Pwy sydd efallai yn gyfrifol am adael y sbwriel hwn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth ellid ei wneud i leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn gadael sbwriel? Pam fyddai hyn yn gweithio?

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr ddilyn y ddolen a defnyddio'r swyddogaeth chwilio i ddarllen am sbwriel o fewn Tirwedd Cenedlaethol Llŷn: Cynllun Rheoli 2015-2020. Yna, gofynnwch iddyn nhw ateb y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r prif faterion yn ymwneud â sbwriel, sy'n effeithio ar Dirwedd Cenedlaethol Llŷn?
- Pa strategaethau sy'n cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r problemau hyn?
- Pa mor llwyddiannus yw'r strategaethau hyn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Yn eich barn chi, beth arall y gellid ei wneud ar Dirwedd Cenedlaethol Llŷn er mwyn datrys y problemau hyn? Pam fyddai'r pethau hyn yn gweithio?

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r fideo: Jon Pountney - Beachcombing - art exhibition (2 funud 20 eiliad o hyd) a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fath o bethau y daeth Jon o hyd iddyn nhw ar y traeth?
- Pam roedd y traeth hwn yn un da ar gyfer chwilio am hen eitemau?
- Pam mae'n cyfeirio at chwilota ar lan y môr fel 'archeoleg lorweddol'?
- Pa fathau o bethau ydych chi wedi dod o hyd iddynt ar draeth a allai fod yn enghreifftiau o archeoleg lorweddol?

## Sgrîn 6

Ar y sgrin hon mae llun o fwi a ddarganfuwyd ar draeth yng Nghymru. Mae ymchwil yn dangos bod y bwi wedi cychwyn ar ei daith oddi ar arfordir Canada. Rydym yn cyfeirio at hyn fel 'tarddiad' – man cychwyn neu hanes hysbys cynharaf rhywbeth.

## Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y map a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Faint o amser a gymerodd y bwi i gwblhau'r daith hon, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa mor bell wnaeth y bwi deithio? Sut ydych chi'n gwybod?
- O ba ddefnydd gafodd y bwi ei greu, yn eich barn chi? Pam?
- Sut ydych chi'n meddwl y llwyddwyd i olrhain tarddiad y bwi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Bydd angen i chi glicio ar 'Gweld map mwy' i weld y map wrth raddfa.

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n mynd allan i'r awyr agored i gasglu gwahanol fathau o sbwriel. Yna, gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol mewn grwpiau bach.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut byddwch chi'n sicrhau eich diogelwch wrth gasglu sbwriel?
- Pa reolau sydd angen i chi eu dilyn? Pam?
- Beth fyddwch chi'n ei ddefnyddio i storio'r sbwriel ynddo? Pam?

## Sgrîn 9

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i gasglu sbwriel mewn modd diogel.

## Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr i ymchwilio i'r sbwriel maen nhw wedi'i gasglu. Eglurwch wrthyn nhw ei bod hi'n debygol bod ganddyn nhw amrywiaeth o ddefnydd pacio wedi'i wneud o ddefnyddiau gwahanol, sydd wedi'u defnyddio ar gyfer gwahanol gynhyrchion. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol, gan barhau yn eu grwpiau bach.

**Cwestiynau ffocws**

- Pwy allai fod wedi gadael y sbwriel hwn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pam efallai eu bod wedi gadael y sbwriel hwn?
- Beth oedd y tu mewn i'r defnyddiau pacio y daethoch o hyd iddynt, yn wreiddiol? Sut ydych chi'n gwybod?

## Sgrîn 11

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried tarddiad y sbwriel, trwy drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

Beth allwch chi ei ddarganfod am:

- lle cafodd ei wneud
- lle cafodd ei brynu
- pa gynnyrch oedd ynddo
- sut y gallai fod wedi cyrraedd y man lle gwnaethoch ei gasglu?

## Sgrîn 12

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y map ac olrhain taith un o'u pecynnau o'r man lle cafodd ei wneud i'r man lle gwnaethoch ei gasglu. Yna, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gallai'r pecyn hwn fod wedi diweddu fel sbwriel?
- Sut gallai'r defnydd pacio fod yn wahanol? Pam fyddai hyn yn helpu?
- Sut y gellid osgoi peth o'r daith? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pam y cafodd ei adael fel sbwriel? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Bydd angen i chi 'Gweld map mwy' i weld graddfa'r map.

TASG 2

# SBWRIEL HYFRYD?

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y dasg hon yn rhoi llawer o syniadau iddynt ynghylch gwneud gweithiau celf allan o sbwriel, fel y gallant ddylunio a gwneud rhai eu hunain.

## Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, mae ffotograff o ddull artistig o wneud defnydd o sbwriel. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sy'n cael ei ddangos yn y ffotograff, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- A fyddech chi'n dweud mai gwaith celf yw hwn? Pam?
- Pa neges mae hyn yn ei chyfleu? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- At bwy y gallai gael ei anelu? Sut ydych chi'n gwybod?

## Sgrîn 4

Dangosir ffotograffau pellach o ddulliau gwahanol o wneud defnydd o sbwriel. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ddefnyddiau sy'n cael eu defnyddio? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth y gellir ei wneud o ddefnyddiau wedi'u hailgylchu, yn eich barn chi? Pam?
- Pa ddefnydd ydych chi wedi ei wneud o ddefnyddiau sydd wedi'u hailgylchu?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr fod llawer o artistiaid yn defnyddio sbwriel neu ddefnyddiau y gellir eu hailgylchu i greu gwaith celf. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ddefnyddiau sy'n cael eu defnyddio? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa deitl fyddech chi'n ei roi i'r darnau hyn o waith celf? Pam?

## Sgrîn 6

Ar y sgrîn hon, mae ffotograff o ddolffin yn llawn sbwriel a ddaeth o draeth yn Sir Benfro. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sy'n cael ei ddangos yn y ffotograff, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- A fyddech chi'n dweud mai gwaith celf yw hwn? Pam?
- Pa neges mae hyn yn ei chyfleu? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- At bwy y gallai gael ei anelu? Sut ydych chi'n gwybod?

## Sgriniau 7-8

Gwahoddwch barau o ddysgwyr i chwilio am wybodaeth am artistiaid lleol sy'n defnyddio sbwriel neu ddefnyddiau wedi'u hailgylchu yn eu gwaith. Gofynnwch iddynt ddefnyddio'r grid CwAMFf ar sgrîn 8 i'w helpu i strwythuro eu hymchwil.

## Sgrîn 9

Atgoffwch y dysgwyr eu bod wedi casglu sbwriel o Dirwedd Cenedlaethol Llŷn. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol, yn eu grwpiau bach.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut allech chi ddefnyddio peth o'r sbwriel i greu gwaith celf? Pa syniadau cychwynnol sydd gennych chi?
- Sut allech chi greu gludwaith (collage) neu gerflun? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa ddarn o gelf fyddwch chi'n ei greu? Pam?
- Pa neges ydych chi am i'r gelfyddyd ei chyfleu? Pam?
- Sut byddwch chi'n cyflawni hyn? Pam y bydd hyn yn cyflawni'r hyn rydych chi ei eisiau?
- Pa deitl neu enw fyddwch chi'n ei roi ar eich gwaith celf? Pam?

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr greu eu darn o waith celf a'i arddangos yn yr ysgol.

TASG 3

# BETH YW'R 5R?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw nawr yn ymchwilio i sut y gallwn leihau ein 'gwastraff' drwy ddefnyddio'r 5R.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr: bob blwyddyn ar y Ddaear rydyn ni'n...

- defnyddio biliynau o dunelli o adnoddau naturiol
- cloddio am ddefnyddiau crai
- creu pethau sydd brin yn cael eu defnyddio ac yna eu taflu ymaith fel 'gwastraff'.

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor gynaliadwy yw'r dull hwn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth ddigwyddai pe byddwn yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r gair 'gwastraff'? Pa effaith y gallai hyn ei chael? Pam?
- Beth yw'r broblem go iawn fan hyn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr fod y 5R yn set o egwyddorion sy'n helpu pobl i wneud gwell dewisiadau er mwyn yr amgylchedd, gan ein galluogi i symud yn nes at fod yn 'ddiwastraff'.

Dyma'r 5R:

- Gwrthod (Refuse): Dewch â llai i mewn i'ch cartref.
- Lleihau (Reduce): Defnyddiwch lai.
- Ailddefnyddio (Reuse): Defnyddiwch bethau eto.
- Ailbwrpasu (Repurpose): Defnyddiwch bethau at ddiben gwahanol.
- Ailgylchu (Recycle): Trowch wastraff yn ddefnyddiau neu wrthrychau newydd.

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar yr awgrymiadau er mwyn gwneud gwell dewisiadau ar gyfer yr amgylchedd, a chlicio ar y blychau i ddangos eu syniadau.

**Cwestiwn ffocws**

- Pa un o'r 5R sydd ar waith pan fyddwch chi'n gwneud pob un o'r pethau hyn?

Nid oes atebion cywir nac anghywir ond gellir trafod pob un fel dosbarth yn ei dro ynghylch yr atebion mwyaf tebygol.

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych eto ar yr awgrymiadau ar gyfer gwneud dewisiadau gwell ar gyfer yr amgylchedd a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gallai pob un o'r syniadau hyn helpu i leihau ein defnydd o ddefnyddiau ac adnoddau? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa syniadau fyddai'n cael yr effaith fwyaf, yn eich barn chi? Pam?
- Beth arall allech chi ei wneud er mwyn helpu i leihau ein defnydd o ddefnyddiau ac adnoddau? Pam fyddai'r pethau hyn yn helpu?

## Sgrîn 7

Eglurwch wrth y dysgwyr fod y tair elfen gyntaf o'r 5R – Gwrthod, Lleihau, Ailddefnyddio – yn bethau y gallwn eu gweithredu yn ein bywydau bob dydd. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol ynghylch sut y gellid gwneud dewisiadau gwell yn y cartref.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth allwn ni wrthod ei brynu?
- Pa bethau allwn ni ddefnyddio llai arnynt/ohonynt?
- Pa bethau allwn ni eu hailddefnyddio?

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu Trydar/X i helpu eraill i feddwl am yr hyn y gallent ei wrthod, ei leihau a'i ailddefnyddio yn eu bywydau bob dydd. Atgoffwch nhw mai dim ond 280 nod sydd ganddyn nhw I wneud hyn.

## Sgrîn 8

Ar y sgrîn hon, mae ffotograff o jariau wedi'u huwchgylchu. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae'r pethau hyn wedi cael eu huwchgylchu? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth oedden nhw o'r blaen? Sut ydych chi'n gwybod?

## Sgrîn 9

Ar y sgrîn hon, mae ffotograff o hen gadair. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut allech chi uwchgylchu'r gadair hon?
- Pam fyddech chi eisiau uwchgylchu'r gadair?
- Pam y byddai rhywun efallai am brynu'r gadair wedi'i huwchgylchu? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?

## Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr i ddarganfod pa eitemau y mae'r ysgol a'u teulu yn meddwl am gael gwared arnynt, ac yna i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pwy benderfynodd gael gwared ar yr eitemau hyn? Pam?
- Pam maen nhw'n cael eu taflu?
- Beth fydd yn digwydd i'r eitemau hyn? Pam?
- Sut allech chi eu huwchgylchu?
- Os na allech chi eu huwchgylchu, beth arall allech chi ei wneud gyda'r eitemau? Rhestrwch eich syniadau.

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ddewis un o'r eitemau sy'n cael eu taflu ac ysgrifennu cynllun ar gyfer ei huwchgylchu. Gallai dysgwyr chwilio ar-lein am eitemau wedi'u huwchgylchu, er mwyn cael rhai syniadau am bosibiliadau.

## Sgrîn 11

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod am wahodd plant ac oedolion i ddod ag eitemau i'r ysgol nad ydyn nhw eu heisiau mwyach ac y byddent yn barod i'w cyfnewid. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble yn yr ysgol fyddech chi'n gosod y man cyfnewid eitemau hyn? Pam?
- Sut fyddech chi'n ei drefnu? Pam?
- Beth fyddai angen i chi feddwl amdano? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth allai fod yn faterion posibl sy'n' codi? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth allech chi ei wneud i fynd i'r afael â'r materion hyn?

Yna, anogwch y dysgwyr i sefydlu 'siop cyfnewid' yn yr ysgol.

## Sgrîn 12

Gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ar eu siop gyfnewid drwy drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth weithiodd yn dda yn eich siop gyfnewid?
- Beth na weithiodd yn dda yn eich siop gyfnewid? Pam?
- Pe byddech yn sefydlu siop gyfnewid arall, beth fyddech chi'n ei wneud er mwyn gwneud yr ail siop yn fwy llwyddiannus na'r un gyntaf?

## Sgrîn 13

Eglurwch wrth y dysgwyr mai un o'r ffyrdd symlaf o ailddefnyddio eitem yw ei rhoi i ffrind neu berthynas neu i sefydliad fel elusen.

Gwahoddwch y dysgwyr i glicio ar y ddolen i ddarganfod mwy am y Rhwydwaith Ailddefnyddio: Donate items - Reuse Network (Saesneg yn unig). Gofynnwch iddynt deipio eu cod post neu enw eu tref agosaf i ddod o hyd i'r ganolfan ailddefnyddio agosaf i'w cartref.

Eglurwch wrthynt fod elusennau eraill hefyd yn derbyn rhoddion o eitemau. Gwahoddwch y dysgwyr i chwilio ar y rhyngrwyd i ddod o hyd i elusennau lleol eraill a fyddai'n derbyn eitemau. Gofynnwch i bob pâr baratoi cyflwyniad munud o hyd, er mwyn rhannu eu canfyddiadau â gweddill y dosbarth.

## Sgrîn 14

Gwahoddwch bob pâr i gyflwyno'r hyn maen nhw wedi'i ddarganfod am roi eitemau diangen i elusennau lleol.

## Sgrîn 15

Eglurwch wrth y dysgwyr fod caffis atgyweirio yn dod yn fwy poblogaidd. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw caffi atgyweirio, yn eich meddwl chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth y gellir atgyweirio yn y caffis hyn? Sut ydych chi'n gwybod?

Rhowch wybod iddynt fod caffi atgyweirio, yn ei ffurf symlaf, yn ddigwyddiad dros dro, lle gall y gymuned leol atgyweirio eitemau o'r cratref sydd wedi torri. Mae gwirfoddolwyr yn trwsio pethau fel dillad, teganau, dodrefn, beiciau a dyfeisiau trydanol syml am ddim.

## Sgrîn 16

Gwahoddwch y dysgwyr i glicio ar y ddolen Caffi Trwsio Cymru - Caffis Atgyweirio mewn Cymunedol Lleol i ddarganfod mwy am gaffis atgyweirio yng Nghymru.

Yna, gwahoddwch nhw i glicio ar y tab 'Cychwyn Caffi Trwsio' ac edrych ar y model a ffefrir ar gyfer cychwyn caffi atgyweirio. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut fyddech chi'n dod o hyd i leoliad rhad ac am ddim? Pa gamau fyddech chi'n eu cymryd? Pam?
- Sut fyddech chi'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ddod o hyd i wirfoddolwyr ac ymwelwyr? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut olwg fyddai ar eich poster i hysbysebu digwyddiad caffi atgyweirio? Pam?
- Gyda phwy allech chi gysylltu neu siarad â nhw am faterion yswiriant a iechyd a diogelwch? Sut ydych chi'n gwybod hynny?
- Pa fath o asesiad risg fyddai ei angen ar gyfer digwyddiad fel hwn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Gyda phwy allech chi siarad am asesiadau risg? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth yw profion PAT, yn eich meddwl chi? Pam?

## Sgrîn 17

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i drefnu caffi atgyweirio yn yr ysgol. Bydd angen iddynt ddod o hyd i arbenigedd ymhlith athrawon a theuluoedd, e.e. pobl sy'n gallu gwnïo ar gyfer trwsio dillad, mecanydd ar gyfer trwsio beiciau neu deganau, ac ati.

Fel dosbarth, gwahoddwch nhw i gynllunio sut y byddan nhw yn...

- Gwahodd gwirfoddolwyr arbenigol.
- Sicrhau fod gan wirfoddolwyr arbenigol yr offer perthnasol i atgyweirio eitemau.
- Cymryd i ystyriaeth unrhyw yswiriant a materion iechyd a diogelwch.
- Gwneud asesiad risg trylwyr.
- Gwahodd pobl i ddod ag eitemau yr hoffent gael eu trwsio, i'r caffi atgyweirio.
- Darparu lluniaeth.

## Sgrîn 18

Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis dyddiad ac amser a'r man ble byddan nhw'n cynnal y caffi atgyweirio. Yna, mewn grwpiau bach, anogwch nhw i gynhyrchu postiad ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol er mwyn hysbysebu eu caffi atgyweirio.

### Sgrîn 19

Gall dysgwyr gynnal eu caffi atgyweirio.

### Sgrîn 20

Wrth fyfyrio ar eu caffi atgyweirio, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth weithiodd yn dda yn eich caffi atgyweirio?
- Beth na weithiodd yn dda yn eich caffi atgyweirio? Pam?
- Pe byddech yn sefydlu caffi atgyweirio arall, beth fyddech chi'n ei wneud er mwyn gwneud yr ail gaffi yn fwy llwyddiannus na'r un cyntaf?

TASG 4

## BETH YW'R 5ED R?

Eglurwch wrth y dysgwyr ein bod wedi cyffwrdd ag ailgylchu yn gynharach ond nawr byddwn yn edrych ar ailgylchu yn fwy manwl.

### Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pryd ydych chi wedi clywed y gair 'ailgylchu' yn cael ei ddefnyddio?
- Pa ystyron gwahanol allai fod i'r gair? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa fathau gwahanol o ailgylchu sydd yna? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa ddefnyddiau sy'n cael eu hailgylchu? Sut ydych chi'n gwybod?

### Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr ein bod ni nawr am ymchwilio i ba mor dda yw Penrhyn Llŷn am ailgylchu. Gwahoddwch y dysgwyr i fyfrio ar y data ynghylch cyfraddau ailgylchu a data gwastraff arall ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Yna, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor dda yw Penrhyn Llŷn am ailgylchu, o'i gymharu â gweddill Cymru? Pam ydych chi'n meddwl hynny? Pa dystiolaeth sydd i gefnogi eich syniadau?
- Pam ydych chi'n meddwl bod gwahaniaeth rhwng yr awdurdodau? Pwy sy'n gyfrifol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Archwiliwch y data 'Beth sy'n digwydd i wastraff'. Sut mae Penrhyn Llŷn yn cymharu â gweddill Cymru? Beth ellir ei wneud i wella cael gwared o wastraff ym Mhenrhyn Llŷn? Pam fyddai'r pethau hyn yn gweithio?

## Sgrîn 5

Rhowch wybod i'r dysgwyr, fod Llywodraeth Cymru wedi datgan:

"Ers i Gymru gael ei llywodraeth ei hun yn 1999, rydym wedi dod yn arweinydd byd ym maes ailgylchu. Rydym bellach yn gyntaf yn y DU, yn ail yn Ewrop ac yn drydydd yn y byd am ailgylchu gwastraf y cartref. Yn syml, daw ailgylchu yn naturiol inni!"

Gwahoddwch y dysgwyr i ddilyn y ddolen i wled sut y cyflawnwyd hyn: Sut y daeth Cymru yn arweinydd y byd ym maes ailgylchu. Yna, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa un o'r strategaethau oedd bwysicaf yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa dystiolaeth sydd i gefnogi'r honiadau sy'n cael eu gwneud am ailgylchu? Sut allech chi wirio'r pethau hyn?

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr ddilyn y ddolen Ffeithiau difyr am ailgylchu, gan fyfyrio ar y ffeithiau a'r manion bethau am ailgylchu yng Nghymru.

Eglurwch iddyn nhw eu bod nhw am greu ffeithlun digidol er mwyn dangos rhywfaint o'r wybodaeth mewn ffordd wahanol. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sy'n gwneud ffeithlun da? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa wybodaeth sydd angen i chi ei chynnwys? Pam?
- Beth yw'r ffordd orau o gyflwyno'r wybodaeth hon? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Yna, gallant greu eu ffeithlun.

Gallech gyrchu'r dudalen Best infographic tools (Saesneg yn unig) ar y we i gael gwybodaeth am adnoddau ar gyfer creu ffeithlun, sydd ar gael yn rhad ac am ddim.